Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness & Improvement Service for North Wales

# Bwletin GwE

## Cyfleoedd

### Ymgynghorydd Her (Gwyddoniaeth – CA4)

**SECONDIAD NEU GYTUNDEB CYFNOD PENODOL**

**Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr erbyn 10:00 o'r gloch, ddydd Iau, 28 Ebrill 2016 i anwengwilym@gwegogledd.cymru**

Cliciwch **yma** am ragor o fanylion.

### Ymgynghorwyr Her

**CYFLEOEDD AM SECONDIAD I BENAETHIAID AC UWCH ARWEINWYR – YM MHOB UN O'R 3 HWB.**

(Gwynedd/Môn; Conwy/Dinbych; Fflint/Wrecsam)

**Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn 10:00 o'r gloch, ddydd Iau, 21 Ebrill 2016 i anwengwilym@gwegogledd.cymru**

Cliciwch **yma** am ragor o fanylion.

## Newyddion

*****NODYN ATGOFFA*****

### Profion Cenedlaethol 2016

Nodyn i'ch atgoffa mai **22 Ebrill** yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich amserlen ar gyfer gweinyddu'r Profion Cenedlaethol ac ar gyfer cymeradwyo i ddatgymhwyso disgyblion. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer cyflwyno yw profion@gwegogledd.cymru

**Gofynnwn yn garedig i chi beidio ag anfon amserlen i unrhyw gyfeiriad arall yn GwE.** Diolch.

### Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Canllawiau i Rieni a Gofalwyr

Mae canllawiau diwygiedig ar gael ar-lein bellach i rieni a gofalwyr. A fyddech cystal â rhannu'r **ddolen** hon ar wefan eich ysgol a rhoi gwybod i rieni amdanynt drwy e-bost neu gylchlythyr.

Beth am sôn am y canllawiau ar sianeli Facebook neu Twitter yr ysgol gan ddefnyddio'r hashnod **#ProfionCenedlaethol16**

Gweler y manylion ar ein gwefan trwy glicio **yma**.

### Rhagarweiniol: Hyfforddiant Hanfodion FFT Aspire

**I ysgolion cynradd (CA2) ac uwchradd (CA4) yng Nghymru.**

***Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf, Llandudno***

Mae'r cwrs rhagarweiniol hwn yn ddelfrydol ar gyfer pobl sydd

## Rhaglen Datblygu Penaethiaid GwE

Cliciwch **yma** i weld manylion datblygiad arweinyddiaeth pwrpasol a drefnwyd gan GwE ar gyfer Penaethiaid Gogledd Cymru.

Cynhelir y cwrs gan George Telfer, Leadership through Experience (International).

**Anfonwch e-bost at cerisiankenrick@GwEGogledd.Cymru yn mynegi eich diddordeb mewn mynychu, erbyn 12:00yp, ddydd Llun, 18 Ebrill 2016.**

Nodwch bod angen sicrhau cefnogaeth eich Uwch Ymgynghorydd Her a Chefnogaeth ar gyfer y cais.

## Gwybodaeth i Ysgolion Uwchradd

### Cymwysterau Cymru

Galw am arbenigwyr pwnc i adolygu amrywiaeth o bynciau TGAU a Safon Uwch. **22 Ebrill 2016** yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Cliciwch **yma** am ragor o wybodaeth.

### Cyfarfod i Gydlynwyr Llythrennedd Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg

Cynhelir cyfarfodydd i gydlynwyr llythrennedd cyfrwng

arnynt angen defnyddio data perfformiad yn eu rôl ac sydd angen mynd i'r afael â FFT Aspire, sy'n cwmpasu CA2 a CA4.

Cliciwch **yma** am ragor o fanylion.

## Gwella Llythrennedd Bechgyn: Strategaethau ar gyfer Llwyddiant

Fel rhan o'r prosiect **Sêr Darllen Uwch Gynghrair Cymru** a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol yn cynnig lleoedd **am ddim** i ymarferwyr o ysgolion yng Nghymru ar raglen bwrpasol dau ddiwrnod. Am ragor o fanylion, cliciwch **yma**.

## Proffiliau Enghreifftiol Cenedlaethol – Safoni a Chymedroli

Dyma'r **linc** ar gyfer y wefan sydd bellach yn cynnwys y proffiliau enghreifftiol cenedlaethol. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau cenedlaethol ac adnoddau defnyddiol.

Saesneg i rannu arfer dda ym maes llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Cliciwch **yma** i weld dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r digwyddiad yma.

I gofrestru, e-bostiwch janetlynneevans@gwegogledd.cymru

## Cyfarfod i Gydlynwyr Rhifedd Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Saesneg

Cynhelir cyfarfodydd i gydlynwyr rhifedd cyfrwng Saesneg i rannu arfer dda ym maes rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Cliciwch **yma** i weld dyddiadau, amseroedd a lleoliadau'r digwyddiad yma.

**Nodwch fod y dyddiad wedi newid ers y bwletin blaenorol.**

I gofrestru, e-bostiwch janetlynneevans@gwegogledd.cymru

## Hyfforddiant Rhifedd CA3 Trawsgwricwlaidd

**(cynhelir dau hyfforddiant ar wahân, ar yr un diwrnod, ar gyfer cydlynwyr cyfrwng Cymraeg a chydlynwyr cyfrwng Saesneg)**

Sesiwn hyfforddi a fydd yn mynd i'r afael â'r cyfleoedd rhifedd trawsgwricwlaidd a dadansoddi data yn dilyn y Profion Rhifedd Cenedlaethol.

Cliciwch **yma** i weld manylion yr hyfforddiant yma.

I gofrestru, e-bostiwch heddwenvaughanroberts@gwegogledd.cymru

# Gŵyl y Gelli

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Gŵyl y Gelli wedi creu gŵyl i ysbrydoli a thanio brwdfrydedd dysgwyr Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Fel rhan o ymrwymiad Gŵyl y Gelli i bobl ifanc, mae'r ŵyl yn rhad ac am ddim i bob ysgol a gynhelir. Caiff ei hariannu gan eu hymddiriedolaeth addysg a Llywodraeth Cymru. Cliciwch **yma** am ragor o fanylion.

**Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan